Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 10fed o Hydref 2018 yn Ystafell Bwyllgor Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins (Cadeirydd), y Cyng. Owen James, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Lesley Prosser

Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Gordon Kilby

Cof 182 / Hyd / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 183 / Hyd / 18 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne (DD604PP) (Medi 18)	£ 1,009.80	£ 201.96	£ 1,211.76*
Hugh Gwynne (DD604 PLQ) (Medi 18)	£ 693.60	£ 138.72	£ 832.32
Hugh Gwynne (DD604PLQ)(Medi 18)	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne (DD604PP) (Medi 18)	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
CGGC (gwein cyflogres Medi)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
The Works (llwyni)	£ 205.87		£ 205.87*
Morgan & Morgan (ffeiliau a phapur)	£ 18.63	£ 3.73	£ 22.36*
Sutcliffe Play - offer (DD708PLQ)	£ 211.80	£ 42.36	£ 254.16*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 261.84		£ 268.84*
Swyddfa Archwilio Cymru (Archwiliad 2017/18)	£ 215.00	£ 53.75	£ 268.75*
Tâl post y Clerc	£ 37.76		£ 37.76#
Cwmni yswiriant Zurich	£ 3,835.52		£ 3,835.52*

Bacs - * Siec - #
Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Robert Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 184 / Hyd / 18 Incwm a dderbyniwyd ers y 12fed o Fedi 2018 hyd yn hyn

CSG (Taliad fesul cam grant PLQ)	£ 8,265.00

Cof 185 / Hyd / 18 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 08/10/18)	£ 36,038.32
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 08/10/18)	£ 2,063.97
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00
Balans Cyfrif y Maer 30/09/18	£ 1,531.91

Cof 186 / Hyd / 18 Materion Ariannol Eraill

1. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y benthyciad a gytunwyd gyda'r BBGC, fel rhan o adnewyddu Neuadd y Sir, yn cael ei gymryd erbyn Mawrth 2019. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Adroddiad y Gyllideb Ch2.
   Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu copïau o'i adroddiad i'r Cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod. Roedd wedi dosbarthu copïau o adroddiad Ch4 hefyd, a oedd yn dangos y swm a gariwyd drosodd o 2017/18 i'r flwyddyn bresennol.
   Yn ogystal, darparodd Mr Plummer gopïau o'r cynigion incwm a gwariant hanfodol ar gyfer 2018/19, fel y'u cytunwyd yn y cyfarfod ar y Gyllideb ar 17 Rhagfyr.
   Byddai'r mater hwn ar Agenda cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref hefyd.

3. Adroddiad yr Archwilydd Allanol 2017/18.
   Roedd yr holl fanylion cyllid wedi cael eu cofnodi'n gywir. Nodwyd un sylw'n ymwneud â Blwch 3 y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, ynghylch rhwymedigaethau arian rhodd. Cynigodd y Cadeirydd, y Cyng. Colin Jenkins, ei ddiolch i'r Swyddog Cyllid am ei holl waith. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Edward Thomas.

Cof 187 / Hyd / 18 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Cwblhawyd gwaith plannu ym Mharc Penlan. Nodwyd.

Cof 188 / Hyd / 18 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

1.Argymhellodd y Swyddog Technegol wrth y Cyngor bod sbwriel ond yn cael ei gasglu 2 waith y mis ym Mharc Penlan, dros y gaeaf, yn hytrach na'n wythnosol. Byddai hyn yn arbed £40 y mis. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr argymhelliad yn cael ei dderbyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Rhoddodd y Swyddog Cyllid wybod i Mr Davies fod yswiriant y Cyngor yn cael ei adnewyddu ym mis Hydref.

Cof 189 / Hyd / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.